

# Llwybr Dyffryn Dyfrdwy
## Dee Valley Way

Llwybr Dyffryn Dyfrdwy
Dee Valley Way



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty




**CROESO i Lwybr yr Afon Ddyfrdwy, llwybr rhanbarth sy'n dilyn yr Afon Ddyfrdwy rhwng trefi tlws Corwen a Llangollen.**

Ceir arwyddion amlwg ar ei hyd wrth iddo groesi tirweddau sy'n amrywiol ac yn llawn hanes a bywyd gwyllt. Mae'r llwybr wedi ei newid ychydig, a bellach mae hefyd yn cynnig golygfeydd gwych o Fynydd Llandysilio. Yn gyffredinol mae'r llwybr ychydig yn fyrrach, ac yn golygu dringo llai o uchder nag o'r blaen.

**Dewch i gael y profiad o 'gerdded yn y wlad' ar ei orau.**

**WELCOME to the Dee Valley Way, a regional path that follows the course of the River Dee between the picturesque towns of Corwen and Llangollen.**

The trail uses clearly waymarked paths to explore this Area of Outstanding Natural Beauty, rich in history and wildlife. The route has been changed slightly, and now also offers fantastic views from Llantysilio Mountain. Overall the route is slightly shorter and involves less height gain than before.

**Discover country walking at its best.**

Mae rhaglen ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. / The Rights of Way Improvement Plan funding programme is funded by the Welsh Government and administered by Natural Resources Wales.




## Cerddwch ar hyd Llwybr yr Afon Ddyfrdwy

Mae arwyddion amlwg ar bob cam o'r daith, sy'n 21 kilomedr /13 milltir, a rhennir y daith yn bum rhan gyda mannau hwylus i gychwyn a gorffen pob darn. Syniad da hefyd fyddai mynd â Map OS Explorer (clawr lliw oren) gyda chi. Mae'r mapiau'n dangos y llwybr yn fanylach .

Mae'r adrannau yn cysylltu'n bennaf â'r pentrefi a'u gorsafoedd rheilffordd – beth am ddefnyddio Rheilffordd Llangollen i gyrraedd dechrau'ch taith? Am fwy o wybodaeth, ffoniwch nhw ar 01978 860979 neu ewch i www.llangollen–railway.co.uk

Fel arall, mae yna wasanaethau bws ar hyd yr A5 – mae'r manylion ar gael yn www.traveline.cymru

## Walking the Dee Valley Way

The whole 21 km / 13 mile route is clearly waymarked and split into 5 section that start and finish at easily accessible points. It's a good idea to take along an OS Explorer map (orange), which shows the route in greater detail.

The sections mostly tie in with the villages and their railway stations - why not use the Llangollen Railway to get to the start of your walk? For information contact them on 01978 860979 or at www.llangollen-railway.co.uk

Alternatively there are bus services which run along the A5 - details are available from www.traveline.cymru

**Mapiau:** OS Explorer 255 / 256 **Pellter:** 21 kilomedr / 13 milltir (yr holl daith)
**Graddfa:** Rhai rhannau'n amrywio o hawdd i ganolig ac anodd
I weld fersiwn o'r arweiniad hwn, ac i gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan:
**www.bryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk**

**Maps:** OS Explorer 255 / 256 **Distance:** 21 km / 13 miles (full trail)
**Difficulty:** Sections vary from easy, to medium and difficult.
For a downloadable version of this guide and other information, please visit our website:
**www.clwydianrangeanddeevalley.org.uk/walking**

# Corwen - Carrog

Pellter: 5.5 km / 3.5 milltir
Graddfa: Canolig (peth dringo)

Gan ddechrau yng Nghorwen, mae'r llwybr yn dringo at droed Caer Drewyn cyn parhau ar hyd y Ddyfrdwy i Garrog. Mae'n werth mynd ar ddargyfeiriad byr i archwilio'r gaer a mwynhau’r golygfeydd trawiadol o'r copa.

Roedd Corwen yn dref farchnad am sawl canrif, ac yn lleoliad pwysig i stopio ar gyfer teithwyr oedd yn teithio mewn coets wedi’i dynnu gan geffylau ar hyd Ffordd Caergybi. Yn oes Fictoria, pan roedd Corwen yn ei hanterth, roedd y ffordd a'r rheilffordd yn cyfarfod ar gyfer mynd ymhellach i ogledd Cymru. Heddiw, mae canol y dref yn bwysig o ran y bensaernïaeth a'r diddordeb hanesyddol ac mae'n ardal cadwraeth ddynodedig.

Y tu uchaf i Gorwen mae un o fryngeyrydd Oes yr Haearn a gafodd ei chadw orau yng Nghymru. Ystyr yr enw Caer Drewyn yw 'caer y dref wen' a bu pobl yn byw yma rywdro rhwng 600cc a goresgyniad y Rhufeiniaid. Ar un adeg, efallai bod palisâd pren ar ben y gaer i amddiffyn yr anheddiad o dai to gwellt, mawr, crwn. Chwiliwch am olion eu sylfeini cerrig wrth ochr y gaer.






## Cadwch lygad am …

Drenau stêm! Cafodd Rheilffordd Treftadaeth Llangollen ei ymestyn i Gorwen yn 2015 ar ôl bod ynghau am hanner canrif. Mae golygfeydd gwych i’w gweld wrth deithio ar hyd Dyffryn Dyfrdwy a digon o gyfleoedd i weld bywyd gwyllt yn yr afon. Efallai y gwelwch chi grëyr yn sefyll yn stond yn aros i bysgod basio, neu’r trochwyr siglo yn hedfan o garreg i garreg.



# Corwen - Carrog

Distance: 5.5 km / 3.5 miles
Difficulty: Medium (some ascents)

Starting at Corwen, the path climbs to just below Caer Drewyn hillfort before continuing along the Dee to Carrog. It is well worth taking a short detour to explore the hillfort and enjoy the stunning views from the top.

Corwen was a market town for many centuries, and an important stop for horse-drawn coach travellers on the Holyhead Road. In its Victorian heyday, the town was the hub for road and rail access to North Wales. Today, the distinctive town centre is of special architectural and historical interest, and a designated conservation area.

Overlooking Corwen is one of the best-preserved Iron Age hillforts in Wales. Caer Drewyn means ‘fort of the white town’ and was occupied sometime between 600BC and the Roman occupation. Its stone ramparts may once have been topped by a wooden palisade that protected a settlement of large, thatched round houses. Look for traces of their stone foundations beside the fort.



## Look Out For …

Steam trains! In 2015 the Llangollen Heritage Railway was finally extended to Corwen after 50 years of closure. The journey along the Dee Valley offers fantastic views of the valley and plenty of opportunities to spot wildlife in the river. You might see a heron standing statue-like waiting for a fish to pass, or the bobbing dippers flying from stone to stone.


# Carrog - Bwlch y Groes

Pellter: 4.5 km / 3 milltir
Graddfa: Anodd (hirach, rhai bryniau)

O'r bont gerrig yng Ngharrog, mae'r llwybr yn dringo'r drwy'r caeau a choedwigoedd i gyrraedd y rhostir agored sy'n cynnig golygfeydd 360 gradd.

Pentref tlws yw Carrog a dyfodd o gwmpas y bont garreg a godwyd yn y 17eg ganrif. Mae bwâu'r bont yn ymestyn ar draws yr Afon Ddyfrdwy. Ystyr yr enw Carrog yw 'nant sy'n llifo'n gyflym'. Yn y 1600au cafodd yr hen eglwys ei golchi i'r afon gan lifogydd. Fe'i hailadeiladwyd ar dir uwch. Ar draws yr afon y mae gorsaf Carrog - ar Reilffordd Treftadaeth Llangollen sydd wedi cael ei hadfer.

Mae i bentref Carrog gysylltiadau agos gydag Owain Glyndŵr. Mae safle ei hen blas ar draws yr afon yn Llidiart-y-Parc. Ac yma, yn ymyl ffordd dyrpeg brysur yr A5, saif olion tomen castell a elwir, yn ôl traddodiad, yn Domen Owain Glyndŵr. Ychydig sy'n gwybod mai'r enw gwreiddiol ar bentref Carrog, cyn oes y rheilffyrdd, yw Llansantffraid Glyndyfrdwy. Tybir fod enw Glyndŵr yn tarddu o enw'r pentref.










## Cadwch lygad am ...

Mae dyfroedd di-lygredd y rhan yma o'r Afon Ddyfrdwy yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae yma boblogaeth iach o eog, brithyll a llysywen. Yn eu tro, mae'r pysgod hwythau'n denu'r dyfrgwn swil, sy'n dod allan yn y nos gan amlaf. Un arall sy'n byw wrth yr afon yw llygoden y dŵr – yr enwog 'Ratty', o'r llyfr The Wind in the Willows.

## Look Out For ...

The unpolluted waters of this section of the river Dee are a Site of Special Scientific Interest (SSSI) and support healthy populations of salmon, brown trout and grayling. The fish, in turn, attract elusive, largely nocturnal otters. Another river resident is the endangered water vole – better known, perhaps, as 'Ratty' from the classic Wind in the Willows.

Distance: 4.5 km / 3 miles
Difficulty: Difficult (longer with some hills)

# Carrog - Bwlch y Groes

From the stone bridge at Carrog, the path climbs through field and woods to reach the open moorland that offers 360 degree views.

Carrog is an attractive village clustered around a 17th-century stone bridge whose arches span the Dee. The name Carrog means 'fast flowing stream', and an early church here was swept away by floods in the 1600s, though later rebuilt on higher ground. Just across the river is Carrog station - on the restored Llangollen Heritage Railway.

Carrog has close links with Owain Glyndwr - the Welsh hero. The site of his fortified manor house sits across the river at Llidiart-y-Parc. Here, too, beside the busy A5, stand the remains of an earthen castle mound traditionally known as Owain Glyndwr's Mount. Less well known is the fact that Carrog village was originally called Llansantffraid Glyndyfrdwy – and it's from this that Owain Glyndwr took his name.

# Bwlch y Groes – Rhewl


Pellter: 5.5 km / 3.5 milltir
Graddfa: Anodd (hirach, rhai bryniau)

O fwlch y Groes, lle mae llawer o lwybrau yn croesi, ddilynwch lwybrau'r rhostir sy'n rhedeg ger ymyl Moel Morfydd. Mwynhewch olygfeydd godidog Castell Dinas Brân a Mynydd Eglwyseg cyn mynd i lawr i hen dafarn y porthmyn yn Rhewl.

Ffurfiwyd y graig galed sydd o dan Mynydd Llantysilio yn ystod y cyfnod Silwraidd, tua 45 o filiynau o flynyddoedd yn ôl. Erbyn hyn rheolir ardaloedd y grug porffor, y llus gwyrdd ac eithin y mynydd ar gyfer y bywyd gwyllt. Mae rhai adar prin y rhostiroedd ar y mynydd ac yn eu plith y gylfinir, cwtiad aur, mwyalchen y mynydd, cudyll bach, a'r rugiar ddu.


Tafarn o'r 14 ganrif yw'r Sun Inn yn Rhewl. Ar hyd y canrifoedd bu'r porthmyn yn gyrru gwartheg a defaid ar draws y mynydd i'r marchnadoedd ar wastadeddau Lloegr. Datblygodd llwybrau'r porthmyn i osgoi talu'r tollau ar y ffyrdd. Roedd bwyd a lloches ar gael yn y tafarndai ar y ffyrdd anghysbell hyn, a lle i aros y nos. Wrth ochr y dafarn roedd corlannau diogel i'r anifeiliaid.

Distance: 5.5 km / 3.5 miles
Difficulty: Difficult (longer with some hills)







## Cadwch lygad am …

Cydnabyddir rhannau helaeth o Fynydd Llantysilio yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig am eu bod yn werthfawr fel rhostiroedd. Un rhywogaeth allweddol sydd yma yw'r rugiar ddu, sy'n parhau'n brin ac sy'n hoffi'r cynefinoedd rhwng y rhostir a'r goedwig. Yn ystod y gwanwyn cynnar mae'r ceiliogod, sydd â phlu du, yn arddangos o flaen yr ieir, sydd â phlu brown, yn eu llecynnau traddodiadol.

## Look Out For …

Large parts of the Llantysilio Mountains are recognised as a Site of Special Scientific Interest (or SSSI) for their valuable moorland. A key species here is the increasingly rare black grouse whose preferred habitat is the margin between open moor and forestry. In early spring the black plumaged males display to the smaller, brown females at traditional sites called 'leks'.

# Bwlch y Groes – Rhewl

From Bwlch y Groes, where many paths cross, follow the moorland paths that gently skirt the edge of Moel Morfydd. Enjoy the stunning views of Castle Dinas Bran and the Eglwyseg Mountain before descending to the old drovers' inn at Rhewl.

The hard, underlying rock of the Llantysilio Mountains was created during the Silurian period, some 45 million years ago. Today, the mosaic of purple heather, emerald green bilberries and gorse of the upper moorland slopes are managed for wildlife. Rare moorland birds found on the mountain include curlew, golden plover, ring ouzel, merlin, and the elusive black grouse.

The Sun Inn at Rhewl is a 14th century drovers' inn. For centuries, drovers herded cattle and sheep across the hills to the lowland markets of England. Drovers' roads developed, avoiding towns and toll roads. Inns along these remote routes provided welcome shelter and food for the drovers overnight, with secure pens alongside for their animals.


# Rhewl - Rhaeadr y Bedol


**Pellter:** 2 km / 1 filltir
**Graddfa:** Canolig (rhai elltydd)


Y tu hwnt i Rhewl, mae'r llwybr yn mynd heibio Eglwys Llantysilio yn ei leoliad hardd, cyn disgyn i lan yr afon lle y gallech fod yn ddigon ffodus i weld pysgod yn neidio neu glas y dorlan, cyn cyrraedd Rhaeadr y Bedol.

Mae Eglwys Llantysilio yn sefyll ar ddarn o dir uchel yn ymyl Rhaeadr y Bedol. Cysegrwyd yr eglwys i Sant Tysilio, mab idywysog lleol. Adnewyddwyd llawer ar yr eglwys er hynny mae modd gweld rhannau o'r eglwys wreiddiol, a adeiladwyd tua 1254, yn y mur gogleddol. O ran diddordeb: addolodd y bardd Robert Browning yma am ddeg wythnos yn hydref y flwddyn 1886.

Fe gynlluniwyd Rhaeadr y Bedol gan Thomas Telford ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn cyflenwi dŵr i Gamlas Llangollen. Mae'r gored yn nodi gwir gychwyn y gamlas sydd yn mynd dros Dyfrbont anhygoel Pontcysyllte, 6 milltir i lawr yr afon. Roedd adeiladwaith cain y gamlas, trwy dir bryniog a dyffrynnoedd dramatig, yn gofyn am ddatblygiadau enfawr ym maes technoleg ddiwydiannol y cyfnod ac oherwydd hyn, cafodd ei ddynodi yn Safle Treftadaeth y Byd yn 2009







## Cadwch lygad am ....

Ar ddechrau'r haf bydd aroglau cryf y craf – y garlleg gwyllt – yn llenwi'r coedlannau gwlyb a'r gwrychoedd sydd o boptu i'r llwybr. Erbyn mis Mai gwelir carpedi o'u blodau gwynion ar lawr y goedwig. Ceir yr enw 'craf' mewn rhai enwau lleoedd fel Crafnant a Chraflwyn.

## Look Out For ...

In early summer, the strong onion smell of wild garlic fills the damp woods and hedgerows along the path. By May, great swathes of white flowers carpet the woodland floor. An older name for wild garlic is ramsons - from the Norse and Old English for an 'unpleasant smelling ram'.

# Rhewl - Horseshoe Falls

**Distance:** 2 km / 1 mile
**Difficulty:** Medium (some hills)

Beyond Rhewl, the path passes Llantysilio Church in its beautiful setting, before dropping to the riverside where you might be lucky enough to see fish jumping or the flash of a kingfisher before reaching the Horseshoe Falls.

Llantysilio church sits on high ground close to the Horseshoe Falls. The church is dedicated to Saint Tysilio, the son of a local prince. Though much restored, parts of the original church built around 1254 can still be seen in the north wall. Interestingly, the poet Robert Browning worshipped here for ten weeks in the autumn of 1886.

The Horseshoe Falls were designed by Thomas Telford at the turn of the 19th century as a means of feeding water into the Llangollen Canal. The weir marks the very start of the canal which, 6 miles downstream, passes over the amazing Pontcysyllte Aqueduct. The elegant construction of the canal through hilly terrain and dramatic valleys required great leaps forward in the industrial technology of the day and because of this, it was made a World Heritage Site in 2009.


# Rhaeadr y Bedol - Llangollen

**Pellter:** 3.3 km / 2 filltir
**Graddfa:** Hawdd (byr a gwastad)

Mae'r llwybr gwastad, hawdd yn llwybr tynnu ar hyd Camlas Llangollen gan ei fod yn rhedeg gyfochrog â'r afon a Rheilffordd Treftadaeth Llangollen sydd wedi'i hadfer.

Rhan o'r llinell drên wreiddiol o Riwabon i'r Abermo, a gafodd ei hadfer, yw Rheilffordd Stêm Llangollen. Yn union fel nifer o linellau eraill Cymru fe agorodd y rheilffordd yn y 1860au. Bu'n ffynnu tan tua 1900 a dirywio yn y 20au a'r 30au. Caeodd o dan doriadau Beeching yn 1968. Mae gwirfoddolwyr brwd wrthi'n adnewyddu'n ofalus ers 1975.

Yng ngorsaf Berwyn, mae Dyffryn Dyfrdwy yn culhau a daw nifer o drafnidiaeth hanesyddol ynghyd drwy'r bwlch: yr afon, y gamlas, y rheilffordd a Ffordd Llundain i Gaergybi gan Telford. Mae'r gamlas a'r ffyrdd wedi'u cysylltu gan y Bont Gadwyn anhygoel, sydd wedi cael ei hadfer yn ddiweddar fel bod modd cerdded arni unwaith eto. Mae'r ffordd yn parhau i fod yn brysur, ond erbyn hyn, ymwelwyr yn unig sydd yn cael eu cludo ar yr afon, y gamlas, a'r rheilffordd."








## Cadwch lygad am …

**App Her Rhaeadr y Bedol**
Dysgwch fwy am hanes a bywyd gwyllt yr ardal arbennig hon drwy lawrlwytho'r App - drwy lawrlwytho yr Ap o'ch Stor Ap neu drwy wneud i'ch ffôn ddarllen y cod QR.

## Look Out For …

**The Horseshoe Quest App**
Find out more about the history and wildlife of this special area by downloading the App from your App Store or by making your phone read the QR code.

# Horseshoe Falls - Llangollen

**Distance:** 3.3 km / 2 miles
**Difficulty:** Easy (short and level)


The flat, easy path follows the Llangollen Canal towpath as it runs parallel with the river and the restored Llangollen Heritage Railway.

The railway here is a restored section of the Ruabon to Barmouth line. Like many Welsh branch lines, it opened in the 1860s, flourished until around 1900, declined in the 1920s and '30s, and was finally closed under the Beeching cuts in 1968. Enthusiastic volunteers have been painstakingly restoring it since 1975.

At Berwyn station the Dee Valley narrows and a succession of historic transport routes crowd together through the gap: the river, canal, railway and Telford's London - Holyhead road. The canal and road are linked by the amazing Chain Bridge, which has recently been restored and is walkable once again. The road remains busy, but the river, canal and railway now carry only visitors enjoying this outstanding countryside.

# Cysylltiadau Defnyddiol
# Useful Contacts

traveline cymru
public transport info
gwybodaeth cludiant
0871 200 22 33
www.traveline.info
txt 84268




| | |
|---|---|
| Canolfan Groeso Llangollen<br>**Llangollen Tourist Information Centre** | 01978 860828 |
| Amgueddfa Llangollen<br>**Llangollen Museum** | 01978 862862 |
| Siop Un Alwad Corwen<br>**Corwen One Stop Shop** | 01490 412378 |
| AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy<br>**Clwydian Range and Dee Valley AONB** | 01352 810614 |
| Rheilffordd Treftadaeth Llangollen<br>**Llangollen Heritage Railway** | 01978  860979 |

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty

01352 810614

www.clwydianrangeanddeevalley.org.uk

Er y gwnaethpwyd pob ymdrech i wneud y llyfryn hwn mor fanwl gywir ag sydd bosib, nid yw'r awduron na'r cyhoeddwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau gwallau / Whilst every effort has been made to make this booklet as accurate as possible, neither authors nor publishers can accept any responsibility for the consequences of any errors.